# ILD ENGINEERING, PONT-Y-PANT



Y mae'n bosibl y byddwch wedi sylwi yn ystod y blynyddoedd diweddar, adeliad newydd yn cael ei godi ym Mhont-y-Pant. Gweithdy newydd ILD Engineering ydi hwn, cwmni sy'n cael ei redeg gen i, Iwan Davies. Y mae ILD Engineering yn arbenigo mewn pob math o waith metal megis giatiau a relings, i waith manwl o drawstiau dur ac adeiladau o fframiau dur a gridiau gwartheg.



Dechreuodd ILD yn 2010. Yn y dechrau yn gweithredu o adeiladau fferm gwag yn Nebo, Llanrwst. Yn 2018, fe brynodd y teulu Ty Llwyd, Pont y Pant gyda'r bwriad o symud y busnes yno. Gwnaethpwyd cais am ganiatad cynllunio a chafwyd caniatad yn 2019 yna aethpwyd ati i godi'r gweithdy yn Nhy Llwyd. Cwblhawyd y gweithdy yn niwedd 2021 ac mae'r busnes bellach wedi gweithredu yn llwyddiannus dros y 18 mis diwethaf o Dy Llwyd. Mae'r swyddfa drws nesa i'r gweithdy yn y broses o gael ei chodi ond gobeithir cwblhau'r gwaith hwnnw cyn diwedd y flwyddyn.

*Os oes gennych urhyw waith haearn angen ei wneud neu dim ond eisiau sgwrs am ryw brosiect a chael cyngor cyfeillgar, yna galwch i mewn ar bob cyfrif i weld Iwan a'r tim.*



Gallwn wneud giatiau a bwydwyr adar yn unswydd ar eich cyfer



